

Gweinyddu'r arolwg adborth

Bydd meddyg yn nodi gweinyddwr ar ddechrau'r broses adborth i gasglu adborth cleifion ar ei ran. Ni ddylai'r meddyg gael mynediad at holiaduron unigol.

Os gofynnwyd i chi weinyddu adborth meddyg, dylech sicrhau;



- Bod y ffurflen rydych yn ei rhoi i'r claf yn ffurflen ar gyfer y meddyg cywir
- Bod pob claf yn cael cyfle i ddarllen y '**Canllaw i Gleifion**' cyn llenwi'r arolwg
- Bod pob holiadur sy'n cael ei gynhyrchu yn cael ei roi i gleifion
- Bod yr holl wybodaeth yn cael ei chadw yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data
- Os yw'r claf wedi rhoi adborth yn electronig, bod y ffurflen bapur gyfatebol yn cael ei difrodi. **Os bydd claf yn ceisio rhoi adborth ar ffurflen bapur ond bod y cod electronig wedi cael ei ddefnyddio, ni ellir defnyddio'r adborth.**

PEIDIWCH Â GWNEUD LLUNGOPIAU O'R FFURFLENNI ADBORTH – os rhoddir adborth ar ffurflen wedi'i chopio ni ellir defnyddio'r ffurflen honno ar gyfer adroddiad adborth y meddyg.

Mae holiadur y GMC wedi'i gynllunio i gael ei roi i 45 o gleifion (neu ofalwyr) yn olynol fel arolwg yn dilyn ymgynghoriad neu arolwg 'ymadael'. Dylai gymryd tua 5 munud i gleifion llenwi'r holiadur. Lle bynnag y bo modd, dylid annog cleifion i llenwi'r arolwg yn syth ar ôl eu hapwyntiad – ar bapur neu ar-lein. Pan fydd claf yn dychwelyd arolwg wedi'i gwblhau, dylech sicrhau bod yr arolwg yn cael ei gadw'n ddiogel cyn dychwelyd y ffurflenni i'r Uned Cymorth Ailddilysu (RSU).

- *“Os yw'r claf yn blentyn ifanc (dan 12 oed) neu'n berson heb alluedd meddyliol, gall gofalwr (neu 'brocsi') llenwi'r arolwg ar ran y claf. Er hyn, ni ddylid defnyddio 'procsi' yn ddiodyn ar gyfer cleifion sydd angen holiaduron mewn fformat gwahanol – e.e. print bras.*
- *Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd achosion pan fyddwch yn credu nad yw'n briodol gofyn am adborth gan glaf penodol. Mae angen i feddygon a staff ddefnyddio'u barn broffesiynol ynglŷn â phriodoldeb gofyn am adborth gan glaf”*

[Y Cyngor Meddygol Cyffredinol – Working with doctors, working for patients]

Sut mae dychwelyd y ffurflenni?

Gallwch dychwelyd ffurflenni adborth papur mewn 2 ffordd;



- Drwy'r post i **Orbit360, Revalidation Support Unit, Ty Dysgu, Cefn Coed, Nantgarw, CF15 7QQ** (cymerwch gopi o ffurflenni cyn eu postio)

NEU

- Gallwch [sganio](#) ffurflenni a'u hanfon drwy ebost i HEIW.orbit360@wales.nhs.uk (gwnewch yn siŵr bod sganiau'n syth a bod modd darllen y cod QR)

Gwnewch yn siŵr bod unrhyw gopïau papur neu electronig yn cael eu storio'n ddiogel am **14 diwrnod** ac yn cael eu gwaredu ar ôl hynny gan ddefnyddio prosesau gwastraff cyfrinachol. Mae'r RSU yn cadw copi o'r ffurflenni cleifion wedi'u sganio yn ddiogel am flwyddyn.

Gweld rhestr o'n [Gwestiynau Cyffredin](#).